**Members can use their monthly free ticket to see any one of these 4 films.**

**Daw'r ffilmiau hyn gydag argymhellion aelodau o Dîm y Llusern Hud. Maent yn ffilmiau llai adnabyddus nad ydynt bob amser yn cael y sylw a'r cyhoeddusrwydd y maent yn ei haeddu, ond rydym wrth ein bodd â nhw ac yn meddwl y byddwch chithau hefyd.**

**Gall aelodau ddefnyddio eu tocyn misol am ddim i weld unrhyw un o'r 4 ffilm yma.**




## The Christophers

15 1hr 40m

DS AD

Genre: Comedy, Drama
Starring: Michaela Coel, Ian McKellan

### Recommended by Sara

The children of a once famous artist hire a forger to complete some unfinished, long abandoned canvases so they'll have an inheritance when he dies. A brilliant and funny film with Sir Ian on his best form ever.

**Mae plant arlunydd a fu'n enwog ar un tro, yn cyflogi ffugiwr i gwblhau rhai cynfasau anorffenedig fel y gallant gael etifeddiaeth pan fydd yn marw. Ffilm wych a doniol, gyda Syr Ian ar ei orau erioed.**




## Backrooms

15 1hr 50m


DS AD

Genre: Psychological Thriller

### Recommended by Rowan

After a therapist's patient disappears into a dimension beyond reality, she must venture into the unknown to save him. A24's most successful film so far!

**Ar ôl i glaf therapydd ddiflannu i ddimensiwn y tu hwnt i realiti, rhaid iddi fentro i'r anhysbys i'w achub. Ffilm fwyaf llwyddiannus A24 hyd yn hyn!**




## The Road of Excess

15 1hr 36m

Genre: Documentary

### Recommended by Annie

Toxic masculinity, mental health, addiction, fame and what happens when it's gone. Follow ex-Dirty Sanchez star Mathew Pritchard and his attempt to row the Atlantic

*Annie says "The start of this incredible film was about as pleasant as being dragged through a dung-heap and I stayed watching only because I was sat in the middle of a row of film programmers at a screening event.*

*I'm not quite sure at what stage things changed but my overwhelming and lasting view is that it's one of the most riveting, enlightening and unspeakably moving films I've seen."*

**Gwrywdod gwenwynig, iechyd meddwl, dibyniaeth, enwogrwydd a beth sy'n digwydd pan fydd yn diflannu. Dilynwch hynt a helynt cyn-seren Dirty Sanchez, Mathew Pritchard, wrth iddo geisio rhwyfo ar draws yr Iwerydd.**

***Mae Annie'n dweud "Roedd dechrau'r ffilm anhygoel hon mor annymunol â chael eich llusgo drwy domen o dail a dim ond am fy mod yn eistedd yng nghanol rhes o raglennwyr ffilm yn ystod y dangosiad y bu i mi aros i'w gwylio. Nid wyf yn siŵr ym mha ran ohoni wnaeth pethau newid ond y farn oedd gen i erbyn y diwedd oedd bod hon yn un o'r ffilmiau mwyaf gafaelgar, gwefreiddiol i mi ei gweld erioed, ac mi oedd wir yn agoriad llygad."***




## Casablanca

U 1hr 42m

Genre: Drama

### Recommended by Sara

An opportunity to see a rare classic on the big screen. Over 80 years on, this is still a grippingly powerful romantic noir telling the story of a cynical expatriate American cafe owner who struggles to decide whether or not to help his former lover and her fugitive husband escape the Nazis in French Morocco.

***Cyfle prin i weld clasur ar y sgrin fawr. Dros 80 mlynedd yn ddiweddarach, mae hon yn dal i fod yn ffilm noir ramantus a gafaelgar sy'n adrodd hanes alltud pesimistaidd o America sy'n berchennog caffi ac sydd methu penderfynu a ddylai helpu ei gyn-gariad a'i gŵr sydd ar ffo rhag y Natsïaid ym Moroco Ffrengig.***




Celebrating 125 years of film at The Magic Lantern.
Come and join us at these special events.

Tickets for all events are: Standard £10.50, Members £8

All events start at 6pm with doors opening at 5.45pm.

**Dressing up is very much encouraged!**

**Dathlu 125 mlynedd o ffilmiau yn y Llusern Hud. Dewch i ymuno â ni ar gyfer y digwyddiadau arbennig hyn.**

**Mae prisiau tocynnau ar gyfer pob digwyddiad yn Safonol £10.50, Aelodau £8**

**Mae pob digwyddiad yn dechrau am 6pm gyda'r drysau'n agor am 5.45pm**

**Dewch mewn gwisg ffansi os hoffech!**

## Butch Cassidy & The Sundance Kid PG 1hr 50m

### Thursday 23rd July

This week we're going western, mainly because we would hate to miss an opportunity to dress up as cowboys!

Who doesn't love a bit of gunslinging in an epic desert adventure set in the 1800's! Based on a true story full of clashes, robberies and wild rides, some view this is one of the last classic western movies and the beginning of the buddy-comedy… so bring a friend and expect some cowboy themed entertainment!

**Yr wythnos yma rydyn ni'n mynd i'r gorllewin, yn bennaf oherwydd dydyn ni ddim am golli cyfle i wisgo fel cowbois!**

**Pwy sydd ddim yn caru gynnau'n cael eu saethu mewn antur epig yn yr anialwch yn y 1800au! Yn seiliedig ar stori wir yn llawn gwrthdaro, lladradau a theithiau gwyllt ar gefn ceffylau, mae rhai'n ystyried mai dyma un o'r ffilmiau gorllewinol clasurol olaf a dechrau'r comedi cyfaill … felly dewch â ffrind i wylio adloniant ar thema cowboi!**







## The Poseidon Adventure PG 1hr 57m

### Thursday 30th July

We have reached the 70's and the decade of the classic disaster movie and we have one of the best for you!

An opportunity to see on the big screen, a film that seemed to grace our TV screens every Sunday afternoon! 70's costumes encouraged as the screening will be followed by the grooviest of 70's tunes with Disco Nick!

A group of passengers led by Gene Hackman must embark on a harrowing struggle for survival after a rogue wave capsizes their cruise ship at sea.


**Rydyn ni wedi cyrraedd y 70au a degawd y ffilm drychineb glasurol, ac mae gennym ni un o'r goreuon i chi!**

**Ar y sgrin fawr, dyma gyfle i weld ffilm a oedd i bob golwg ar ein sgriniau teledu bob prynhawn Sul! Anogir gwisgoedd o'r 70au, oherwydd yn dilyn y ffilm bydd caneuon mwyaf grŵfi'r 70au gyda Disco Nick!**

**Rhaid i grŵp o deithwyr dan arweiniad Gene Hackman gychwyn ar frwydr erchyll i oroesi ar ôl i don annisgwyl droi eu llong fordaith drosodd ar y môr.**








## Dirty Dancing
15 1hr 40m

### Thursday 6th August

**Can you carry a watermelon?**


No matter how many times you've rewatched this beauty of a film, there's always that next time – especially on the big screen with your besties and a cocktail or two!

After the film join in or witness our very own 80's dancercise lead by the fantastic Sarah Verity of Sarah Verity's School of Dance with tunes from Disco Nick. Don't forget those all-important leg-warmers!

**Fedrwch chi gario melon dŵr?**

**Dim ots faint o weithiau rydych wedi gweld y ffilm wych hon o'r blaen, mae hi'n amser da bob tro - yn enwedig ar y sgrin fawr gyda'ch ffrindiau gorau a choctel neu ddau!**

**Ar ôl y ffilm dewch yn ôl i'r 80au gyda ni drwy ymuno â, neu wylio, ein sesiwn dancercise arddull dan arweiniad yr hyfforddwraig wych Sarah Verity o Ysgol Ddawns Sarah Verity gyda cherddoriaeth gan Disco Nick. Co**




## The Incredibles
U 1hr 55m

### Thursday 20th August

Is this the best superhero film ever? Full of action, humour and love this classic Pixar film is one not to miss.

Additionally, you'll have chance to become your very own superhero…! Craft your very own superhero mask and join our very own 'Magic Lantern green-screen-studio' before the film and see yourself fly through the skies on the big screen after the credits roll!

**Ai hon yw'r ffilm archarwr orau erioed? Yn llawn cyffro, hiwmor a chariad – peidiwch â cholli'r ffilm glasur hon gan Pixar.**

**Cewch hefyd gyfle i ddod yn archarwr eich hun…! Crëwch eich mwgwd archarwr eich hun ac ymuno â 'Stiwdio sgrin wedd y Llusern Hud' cyn y ffilm i gael gweld eich hun yn hedfan drwy'r awyr ar y sgrin fawr ar ddiwedd y ffilm!**




## The Greatest Showman
PG 1hr 45m

### Thursday 27th August

To finish off our summer Throwback Thursdays programme we have the spectacular story that needs no introduction.

Roll up to our very own circus tent. **With performers from Sarah Verity School of Dance.** Feel free to sing, dance and clap along and enjoy what can only be described as The Greatest Show of the summer!

**I orffen ein rhaglen Clasuron Dydd Iau, mae gennym y stori syfrdanol nad oes angen cyflwyniad arni.**

**Dewch yn llu i'n pabell syrcas. Gyda pherfformwyr o Sarah Verity School of Dance. Mae croeso i chi ganu, dawnsio a chlapio a mwynhau Sioe Orau'r haf!**




## Muppet Treasure Island U 1hr 39m

### Thursday 13th August

Get ready to enter the world of pirates and plunder with our Muppet-Puppet-Pirate-Party! There will be swashbuckling lessons, crafting activities, treasure hunts and more for the whole family to get stuck into. Then settle in for the famous adventure as told by Kermit and company!

**Byddwch yn barod i fynd i mewn i fyd o fôr-ladron ac ysbail gyda'n Parti Môr-ladron y Muppets! Bydd gwersi cleddyf cyffrous, gweithgareddau crefft, helfa drysor a mwy i'r teulu i gyd gael ymuno yn yr hwyl. Yna cewch fwynhau Kermit a'i ffrindiau yn adrodd y stori antur enwog!**

For August we are moving our Music Nights to the main hall and the big stage so bring everyone you know and wear your dancing shoes!

Doors open at 7.30pm with music starting at 9pm. Entry is free but as we do pay all our musicians, donations would be welcome. Pay what you can afford and help us continue to bring amazing musicians to The Lantern.

**Ar gyfer mis Awst rydym yn symud ein Nosweithiau Gwener i'r brif neuadd a'r llwyfan mawr felly dewch â'ch cyfeillion i gyd a chofiwch eich esgidiau dawnsio! Mae'r drysau'n agor am 7.30pm gyda cherddoriaeth yn dechrau am 9pm. Mae mynediad am ddim ond gan ein bod yn talu ein holl gerddorion rydym yn croesawu rhoddion. Talwch faint medrwch a helpwch ni i barhau i ddod â cherddorion anhygoel i'r Llusern.**

## Friday 24th July

### Gig-L



The Cambridge girls return for another evening of fun-filled pop-rock guaranteed to make you smile! Not to be missed!

**Mae merched Caergrawnt yn dychwelyd am noson arall o roc-pop llawn hwyl sy'n siŵr o wneud i chi wenu! Peidiwch â'i cholli!**

## Friday 31st July

### The Refreshers



High energy 80's punk/pop covers from Aberystwyth's top 80's pop/punk covers band! Expect The Clash, The Cure, The Jam, Blondie, The Specials, Bowie, The Smiths... highly danceable night!

**Caneuon pync/pop egnïol adnabyddus o'r 80au gan fand dynwared pop/pync gorau Aberystwyth o'r 80au! Disgwyliwch glywed caneuon The Clash, The Cure, The Jam, Blondie, The Specials, Bowie, The Smiths... noson lle gallwch ddisgwyl dawnsio drwy'r nos!**


## Friday 7th August

### Paper Jam




Paper Jam are Aberystwyth's best party band! There are many of them - they're blessed with multiple singers, brass, keys, guitars, bass and drums! A Paper Jam night is an eclectic night of upbeat, energetic and fun covers.

**Paper Jam yw band parti gorau Aberystwyth! Maen nhw'n griw go fawr - gyda nifer o gantorion ardderchog ac offerynwyr pres, allweddellau, gitâr, gitâr bas a drymiau! Mae noson Paper Jam yn noson eclectig, llawn caneuon hwyliog a llawn egni.**




The Magic Lantern Band
**'of mysteries & sin'**



Our very own house band, The Magic Lantern Band, have written and recorded their second album - this time with 8 brand new original, dynamic, genre-fusing tracks. Get 'of mysteries & sin' on vinyl or CD with brand new merchandise also available.


**Mae ein band tŷ ni ein hunain, The Magic Lantern Band, wedi ysgrifennu a recordio eu hail albwm - y tro hwn gydag 8 trac gwreiddiol newydd sbon, deinamig, sy'n cyfuno genres. Sicrhewch 'of mysteries & sin' ar finyl a CD gyda nwyddau newydd sbon hefyd ar gael.**



Friday Night is **Music Night**

## Friday 14th August

### Smokin' Guns




Smokin' Guns are a dynamic three-piece band known for their energetic live shows and crowd-pleasing repertoire. Blending rock, pop, indie, country and classic singalong favourites, they take audiences on a musical journey from the 1960s to today.

**Band deinamig, tri aelod yw Smokin' Guns - yn adnabyddus am eu sioeau byw egnïol a'u repertoire poblogaidd. Yn cyfuno roc, pop, 'indie', canu gwlad a'r hoff glasuron i bawb gael ymuno, maent yn mynd â'r gynulleidfa ar daith gerddorol o'r 1960au i heddiw.**

## Friday 21st August

### Dusk Till Dawn



Dusk Till Dawn are a high energy female fronted three-piece band delivering some of the biggest rock anthems of the last 50 years. Featuring powerhouse vocals, soaring guitar work and huge drums, the band delivers an unforgettable performance guaranteed to get audiences singing, dancing and rocking all night long!

**Band o dri, gyda merch yn brif leisydd, yw Dusk Till Dawn. Mae'n fand llawn egni sy'n cyflwyno rhai o anthemau roc gorau'r 50 mlynedd ddiwethaf. Gyda chanu pwerus, gwaith gitâr gogoneddus a drymiau rhyfeddol, dyma fand sy'n cyflwyno perfformiadau bythgofiadwy sy'n siŵr o gael y gynulleidfa i ganu, dawnsio a rocio drwy'r nos!**

## Friday 28th August

### The Magic Lantern Band



Our house band interweaves elements of soul, blues, folk and grunge - frequently genre-fusing and always evolving, creating songs that are soulful, groovy, and atmospheric.

With a huge stylistic variety of songs, from eclectic covers to two albums of original tracks composed and arranged by the band, the end result is a musical journey filled with punchy and dynamic songs.

**Mae ein band tŷ yn cydblethu elfennau o gerddoriaeth 'soul', blŵs, gwerin a 'grunge' - yn aml yn asio arddulliau a bob amser yn esblygu, gan greu caneuon teimladwy, llawn awyrgylch a llawn mynd.**

**Gyda phentwr o ganeuon amrywiol o ran arddull, o fersiynau eclectig i ddau albwm o draciau gwreiddiol wedi'u cyfansoddi a'u trefnu gan y band, y canlyniad yw taith gerddorol yn llawn caneuon grymus a hofiadwy.**


# FREE ENTRY/AM DDIM

## Music starts from 9pm

Are you a local business or organisation interested in sponsoring our Friday Nights? For details or a chat about sponsorship, please email **saramagiclantern@gmail.com**

**Ydych chi'n fusnes neu'n sefydliad lleol fyddai gan ddiddordeb i noddi ein Nosweithiau Gwener? Am fanylion neu sgwrs ynghylch noddi, ebostiwch saramagiclantern@gmail.com**

# **Theatre** On Screen




## André Rieu's 2026 Summer Concert: Viva Maastricht! U 2hr 45m

### Sunday 9th & Sunday 16th August


Tickets: Standard £13 Seniors £11 Members £10
Under 25 £8.50

André Rieu's 2026 Summer Concert: Viva Maastricht! marks a special milestone, celebrating 20 years of his iconic open-air concerts on the Vrijthof square in his hometown of Maastricht, Netherlands.

This live concert features André Rieu, his Johann Strauss Orchestra, and various international guest artists.

Mae Cyngerdd Haf 2026 André Rieu, *Viva Maastricht!*, yn nodi carreg filltir arbennig, gan ddathlu 20 mlynedd o'i gyngherddau awyr agored eiconig yn sgwâr y Vrijthof yn ei dref enedigol, Maastricht, yn yr Iseldiroedd.

Mae'r cyngerdd byw hwn yn cynnwys André Rieu, ei Gerddorfa Johann Strauss ac amrywiol artistiaid gwadd rhyngwladol.




## Funny Girl PG 2hr 45m

### Saturday 22nd August

Tickets: Standard £13 Seniors £11 Members £10
Under 25 £8.50

The filmed version of the award-winning revival stars Sheridan Smith as Fanny Brice, a role made famous on Broadway by Barbra Streisand.

A bittersweet musical comedy featuring classic songs including "Don't Rain on My Parade", "People" and "I'm the Greatest Star"

Y fersiwn wedi'i ffilmio o'r adfywiad llwyddiannus gyda Sheridan Smith yn serennu fel Fanny Brice, rôl a wnaed yn enwog ar Broadway gan Barbra Streisand.

Comedi gerddorol chwerwfelys sy'n cynnwys caneuon clasurol gan gynnwys "Don't Rain on My Parade", "People" ac "I'm the Greatest Star".



# Food & **Drink**

**We offer a fantastic range of food and drinks. In addition to a wide range of soft drinks, we have a fully stocked bar with a great selection of spirits, wines, beers, ales and ciders plus cocktails and non alcoholic gin, cider, lager and Guinness.**

In addition to delicious popcorn, sweets and ice cream, we also offer Nachos, Hot Dogs, Cheeseboards and savoury nibble bowls.







**The following options are available to Pre-order only.** You can add them to your order when you book your tickets.

## Picnic Boards




The Magic Lantern is committed to being as environmentally friendly as possible and we are completely plastic free - all our food is served in reusable dishes, and our popcorn boxes are made from bamboo - and are fully compostable.

Please note - we do our best to keep our prices as reasonable as we can. Our food and drink sales are what keeps us going and so we do not allow people to bring in their own food and drink.

**Rydym yn cynnig amrywiaeth wych o fwyd a diodydd. Yn ogystal ag ystod eang o ddiodydd meddal, mae gennym far wedi'i stocio'n llawn gyda detholiad gwych o wirodydd, gwinoedd, cwrw, a seidr ynghyd â choctels a diodydd di-alcohol gan gynnwys jin, seidr, cwrw a Guinness.**

Yn ogystal â phopcorn blasus, fferins a hufen iâ, rydym hefyd yn cynnig Nachos, Cŵn Poeth, byrddau caws a bowlenni byrbrydau sawrus.










**Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'w harchebu ymlaen llaw yn unig.** Gallwch eu hychwanegu at eich archeb pan fyddwch yn archebu eich tocynnau.

Mae'r Llusern Hud wedi ymrwymo i fod mor gyfeillgar i'r amgylchedd â phosibl ac rydym yn gwbl rydd o blastig - mae ein holl fwyd yn cael ei weini mewn llestri y gellir eu hailddefnyddio, ac mae ein bocsys popcorn wedi'u gwneud o fambŵ - a gellir compostio pob rhan ohonynt.

Noder – rydym yn gwneud ein gorau i gadw ein prisiau mor rhesymol â phosibl. Ein gwerthiannau bwyd a diod sy'n ein cadw ni i fynd ac felly nid ydym yn caniatáu i bobl ddod â'u bwyd a'u diod eu hunain i mewn.

# **Accessibilty** Information



**The ground floor of The Magic Lantern is fully accessible for wheelchairs, and we have 3 designated wheelchair spaces and can create more when needed. There is a disabled toilet with a Radar Key attached to the cinema building.**

We have 6 Dolby Accessibility Handsets for use by anyone who is blind or partially sighted and people who are deaf or hard of hearing.

A member of our team will be able to show you how to access either **Closed Captions** on your handset - which will show descriptive subtitles for most films we show, **Enhanced Audio** - for people who would like the sound to be louder and **Audio Description** which will describe any dialogue free parts of the film.

We can provide headphones or you can bring your own (3.5mm jack lead required).

We have several Descriptive Subtitled (DS) films each week, but the handsets allow anyone who needs subtitles to access them for most of our programmed films.

Check the film description information in our brochure for these logos:

If you see these logos next to a film, it means Audio Description and/or Descriptive Subtitles are available.



## Noise Cancelling Headphones

We have several ear defenders for both children and adults to borrow, should they find the volume level too loud.

## Accessible Seats

Seats E1, E2 and E3 are freestanding armchairs which are slightly harder and taller than our cinema seating. They are removable so wheelchairs can also use this area.



All seats have ample leg room. Please visit the Accessibility Page of our website for details of our seat sizes.

There are two disabled car parking bays directly in front of the cinema.

In rainy weather you are welcome to bring your mobility scooter inside.

## Accessible Screenings

Look out for **Relaxed** or **DS** or **DF** on our listings page. This means the film will be a Relaxed screening or have Descriptive Subtitles (DS) on screen or be Dementia Friendly (DF).

**See page 10 for details of DS/DF/Relaxed screenings.**



# Gwybodaeth **Hygyrchedd**

**Mae llawr gwaelod Y Llusern Hud yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gennym 3 lle dynodedig i gadeiriau olwyn, ac yn gallu creu mwy pan fo angen. Mae yna doiled i bobl anabl gydag Allwedd Radar ynghlwm wrth adeilad y sinema.**



Mae gennym 6 Set Llaw Hygyrchedd Dolby i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n ddall neu sy'n gweld yn rhannol, a phobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Bydd aelod o'n tîm yn gallu dangos i chi sut i gael y **Capsiynau Caeedig** ar eich set llaw – a fydd yn dangos isdeitlau disgrifiadol ar gyfer y rhan fwyaf o ffilmiau rydyn ni'n eu dangos, **Sain Gwell** – i bobl a hoffai i'r sain fod yn uwch a **Disgrifiad Sain** a fydd yn disgrifio unrhyw rannau o'r ffilm lle nad oes deialog.

Gallwn ddarparu clustffonau neu gallwch ddod â'ch rhai eich hun (mae angen gwifren jac 3.5mm).

Mae gennym ni sawl ffilm ag Isdeitlau Disgrifiadol (DS) bob wythnos, ond mae'r setiau llaw yn caniatáu i unrhyw un sydd angen isdeitlau i'w cael ar gyfer y rhan fwyaf o'n ffilmiau ar y rhaglen.
Gwiriwch y wybodaeth am ddisgrifiad y ffilm yn ein llyfryn am y logos yma:

Os gwelwch y logos yma wrth ymyl ffilm, mae'n golygu bod Disgrifiad Sain a/neu Isdeitlau Disgrifiadol ar gael.

## Clustffonau Canslo Sŵn

Mae gennym nifer o amddiffynwyr clust i blant ac oedolion eu benthyg, os byddan nhw'n teimlo bod lefel y sain yn rhy uchel.



## Seddau Hygyrch

Mae seddi E1, E2 ac E3 yn gadeiriau breichiau annibynnol sydd ychydig yn galetach ac yn dalach na'n seddi sinema. Gallwch eu symud oddi yno, felly gall cadeiriau olwyn ddefnyddio'r ardal yma hefyd. Mae gan bob sedd ddigon o le i goesau.

Ewch i Dudalen Hygyrchedd ein gwefan i gael manylion am feintiau ein seddi.



Mae dau fae parcio i bobl anabl yn union o flaen y sinema. Mewn tywydd glawog mae croeso i chi ddod â'ch sgwter symudedd i mewn.

## Dangosiadau Hygyrch

Chwiliwch am Hamddenol neu DS neu DF ar ein tudalen sy'n rhestru'r dangosiadau. Mae hyn yn golygu y bydd y ffilm yn ddangosiad hamddenol neu gydag Isdeitlau Disgrifiadol (DS) ar y sgrin, neu'n Gyfeillgar i Ddementia (DF).

**Ewch i dudalen 11 am fanylion dangosiadau DS/DF/Hamddenol.**

# BOX OFFICE OPENING TIMES

**If you book 24 hours in advance you can save money!**

Call in or phone the Box Office:

| | |
|---|---|
| Mon | 11am - 9pm |
| Tue - Thur | 3pm - 9pm |
| Friday - Saturday | 6pm - 10pm |
| Sunday | 10am - 3pm |

Book online at **www.tywyncinema.co.uk**
Telephone: **01654 710260**

## Parking

There are 3 general and two disabled parking bays directly in front of the cinema and several parking spaces across the road and next to the Corbett Hotel. You can also find two free car parking areas on Ffordd Gwalia, the road directly between the cinema and St Cadfan's Church.

## Dogs

If your dog will sit quietly throughout the film you are welcome to bring them, on their lead, in the STALLS but not on the balcony. However, if your dog starts to cause a disruption, you will need to remove them, without any associated refund.

## Prices

Book 24 hours in advance, online, over the phone or at the Box Office to receive a £1 discount on all tickets.

| | |
|---|---|
| Standard Adult (15 - 60) | **£9.50** |
| Members | **£7.50** |
| Child (1 - 14) | **£7.70** |
| Senior (60+) | **£8.50** |

# ORIAU AGOR Y SWYDDFA DOCYNNAU

**Os ydych yn archebu 24 awr ymlaen llaw gallwch arbed arian!**

**Galwch i mewn neu ffoniwch y Swyddfa Docynnau:**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11am - 9pm |
| Dydd Mawrth - Dydd Iau | 3pm - 9pm |
| Dydd Gwener - Dydd Sadwrn | 6pm - 10pm |
| Dydd Sul | 10am - 3pm |

Archebwch ar-lein yn **www.tywyncinema.co.uk**
Ffôn: **01654 710260**

## Parcio

Ceir tri man parcio cyffredinol a dau ar gyfer pobl anabl yn union o flaen y sinema, ynghyd â nifer o fannau parcio dros y ffordd, y drws nesaf i Westy'r Corbett Hotel. Gallwch ddod o hyd i ddau fan parcio am ddim ar Ffordd Gwalia hefyd, sef y ffordd sy'n union rhwng y sinema ac Eglwys Sant Cadfan.

## Cŵn

Os bydd eich ci yn eistedd yn dawel drwy gydol y ffilm, mae croeso ichi ddod ag ef gyda chi, ar dennyn. Cewch eistedd yn y seddi ar y llawr gwaelod, ond ni chewch eistedd ar y balconi. Ond pe bai eich ci yn dechrau cynhyrfu, bydd angen ichi ei dywys o'r sinema, heb unrhyw ad-daliad cysylltiedig.

## Prisiau

Archebwch 24 awr ymlaen llaw, ar-lein, dros y ffôn neu yn y Swyddfa Docynnau i dderbyn gostyngiad o £1 ar bob tocyn.

| | |
|---|---|
| Oedolyn Safonol (15 - 60) | **£9.50** |
| Aelodau | **£7.50** |
| Plentyn (1 - 14) | **£7.70** |
| Hŷn (60+) | **£8.50** |

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru · ffilm Cymru Wales · The National Lottery · BFI · FAN · Llywodraeth Cymru Welsh Government

Magic Lantern Cinema Ltd
Corbett Square, Tywyn,
Gwynedd LL36 9DF
Telephone: 01654 710260
www.tywyncinema.co.uk

Designed and produced by SCOTT TAYLOR Design & Artwork - 07790 442103